Promoting improvements in policing to make everyone safer

Pa mor effeithlon mae’r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Trosolwg

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi’i asesu fel llu sydd angen gwella o ran effeithlonrwydd y ffordd mae’n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu. Mae gan y llu ddealltwriaeth dda o’r galw cyfredol am ei wasanaethau ond nid yw’n deall y galw posibl yn y dyfodol. Mae ei ddyraniad cyfredol o adnoddau’n cyd-fynd â gofynion ariannol ac yn diwallu’r mwyafrif o ofynion galw a gofynion sefydliadol cyfredol, ond nid oes ganddo ddealltwriaeth lawn o gostau ac ansawdd y lefelau gwasanaeth a ddarperir trwy ei fodel gweithredu cyfredol. Nid oes gan Heddlu Dyfed-Powys gynlluniau buddsoddi credadwy yn seiliedig ar ragdybiaethau pwyllog ond mae wedi gwneud rhywfaint o waith i ddeall sut y gallai fod arno angen newid ei ddarpariaeth o wasanaeth yn y dyfodol.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddealltwriaeth dda o’r galw cyfredol am ei wasanaethau ond nid yw’n deall y galw posibl yn y dyfodol. Mae dyraniad cyfredol y llu o adnoddau’n cyd-fynd â gofynion ariannol ac yn diwallu’r mwyafrif o ofynion galw a gofynion sefydliadol cyfredol, ond nid oes ganddo ddealltwriaeth lawn o gostau ac ansawdd y lefelau gwasanaeth a ddarperir trwy ei fodel gweithredu cyfredol. Mae gan y llu hanes da o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn arbennig ynghylch diwallu targedau ar gyfer lleihau, tra’n mantoli ei gyllideb flynyddol a chronni cronfeydd trwy danwariannau blynyddol.

Nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn llawn ddeall sgiliau a galluoedd cyfredol ei weithlu, yn dibynnu ar gynlluniau sydd i raddau helaeth yn adweithiol ac ansoffistigedig. Mae hyn yn arwain at anghysondebau o ran darpariaeth o wasanaeth. Nid oes gan y llu ymagwedd strwythuredig tuag at weithio gydag eraill er mwyn rheoli’r galw am ei wasanaethau’n well. Fodd bynnag, mae’n gysylltiedig â chynghreiriau strategol a mentrau cydweithrediadol a gynllunir i wella effeithlonrwydd. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddealltwriaeth gyfyng o sut mae newidiadau a wnaed i wella effeithlonrwydd wedi effeithio ar ei allu i reoli galw ac ni all arddangos dealltwriaeth o effaith rhaglenni newid blaenorol.

Ar hyn o bryd nid yw Heddlu Dyfed-Powys yn deall lle gallai fod angen iddo wneud gostyngiadau o ran niferoedd y gweithlu yn y dyfodol. Nid oes gan y llu gynlluniau buddsoddi credadwy yn eu lle yn seiliedig ar ragdybiaethau pwyllog,ond mae wedi gwneud rhywfaint o waith i ddeall sut y gallai fod arno angen newid ei ddarpariaeth o

wasanaeth yn y dyfodol trwy gynlluniau gweithlu'r llu. Ymhellach, mae wedi buddsoddi'n dda mewn TGCh.

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys hanes da o gyflawni arbedion. Mae'n arbed mwy o arian na sydd arno ei angen ac felly mae wedi tanwario bob blwyddyn o swm sylweddol. Ni wnaeth HMIC [Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi] weld tystiolaeth bod y llu wedi datblygu trefniadau gweithio ar y cyd, lle mae timau cymysg o wahanol sefydliadau'n cydweithio i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd, heblaw am o dan drefniadau IOM [Rheoli Integredig Troseddwyr]. Mae hyn yn golygu nad yw'n manteisio i'r eithaf ar fuddion gweithio ar y cyd.

Mae cyfieithiadau o'r adroddiadau llawn ar gael ar gais:
contact@hmic.gsi.gov.uk